O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2448 (Cy. 266)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Rasa i Gylchfan Glynebwy, Blaenau Gwent) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Rasa i Gylchfan Glynebwy, Blaenau Gwent) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A465 rhwng Cylchfan Rasa a Chylchfan Glynebwy ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel y'u disgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw feic pedal, na pheri na chaniatáu i unrhyw feiciau pedal, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru nac achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd deithio ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a nodwyd yn Atodlen 3.

**Cymhwyso**

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Medi 2012

***R Morgan***
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder dros dro o 40 mya a Gwahardd Beicwyr

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Rasa i'w chyffordd ag ochr orllewinol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Glynebwy.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder o 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Rasa yn ei chyfanrwydd a phrif gerbytffordd y gefnffordd sy'n ymestyn am 150 o fetrau i'r dwyrain o'r gylchfan hon.

### ATODLEN 3
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn cyfan o'r gilfan sydd gyfagos i gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin, ac sydd gyfagos i Moor View, rhwng Cylchfan Glynebwy a Chylchfan Rasa.